Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig

**Hysbysiad Hwylus** **Mawrth 2008**

## Cyflwyniad

Wrth wneud datganiad i'r Senedd ym mis Tachwedd 2005, datgelodd Gordon Brown AS, y Canghellor ar y pryd, ei fwriad i ddeddfu er mwyn sicrhau bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn annibynnol ar y Llywodraeth. Byddai hyn yn sicrhau bod corff ar wahân, hyd fraich oddi wrth y Llywodraeth, yn gyfrifol am lywodraethu a chynhyrchu ystadegau. Symbylwyd y datganiad hwn gan y dyhead i gryfhau hyder y cyhoedd ynghylch annibyniaeth ac uniondeb ystadegau swyddogol.

Mae **ystadegau swyddogol** yn golygu unrhyw ystadegau sy'n dod o fewn cwmpas cyfrifoldeb rheoli unrhyw swyddog sy'n gweithio i'r wladwriaeth[1]. Gallant gynnwys:

- Ystadegau a gesglir drwy arolygon, ymchwiliadau neu gyfrifiadau ffurfiol;
- Ystadegau a gynhyrchir fel sgil-gynnyrch i system weithredol neu weinyddol, fel system drethi neu fuddiannau;
- Ystadegau eraill a gynhyrchir i helpu â gwaith y Llywodraeth, er enghraifft ystadegau gweithredu mewnol ar berfformiad neu bersonél.

Mae'r **ystadegau gwladol** o dan ofal ystadegwyr y Llywodraeth, ac mae'n rhaid iddynt fodloni safonau cenedlaethol o ran ansawdd ac uniondeb. Disgwylir iddynt gael gwiriadau sicrhau ansawdd yn rheolaidd, a chynhyrchir yr ystadegau heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

## Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori a chraffu Seneddol, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru ym mis Gorffennaf 2007. Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2008. Yn bennaf, mae'r Ddeddf yn ymwneud â strwythur y sefydliadau sy'n darparu ystadegau a gwasanaethau cofrestru swyddogol. Mae'n berthnasol i'r DU gyfan. Crëwyd y Bwrdd Ystadegau, corff anweinidogol sy'n atebol i'r Senedd ac sy'n goruchwylio'r broses o gynhyrchu ystadegau swyddogol, gan y Ddeddf. Adwaenir y Bwrdd fel Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig.

## Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig yn disodli'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Comisiwn Ystadegau. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n gweithredu fel swyddfa gweithredol yr Awdurdod Ystadegau.

Prif swyddogaethau'r Awdurdod yw:

[1] ***National Statistics Annual Report, 2006/07***, Gorffennaf 2007. Gellir canfod diffiniad cyfreithiol lawn o ystadegau gwladol yn Adran 6 o'r Ddeddf. Mae linc i'r Ddeddf ar gael yn yr adran 'Rhagor o Wybodaeth' ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Monitro ac adrodd ar ystadegau swyddogol**
Mae'n ofynnol i'r Awdurdod fonitro'r holl ystadegau swyddogol, a chaiff hefyd adrodd arnynt, a hynny lle bynnag y cânt eu cynhyrchu a pha un a ydynt yn ystadegau gwladol neu beidio. Fel rhan o'r broses hon, mae'n rhaid i'r Awdurdod osod adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, gan ddangos ei fod wedi ystyried materion yn ymwneud â datganoli.

**Asesu ystadegau allweddol mewn modd annibynnol**
Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi cod ymarfer y gellir ei ddefnyddio er mwyn asesu, mewn modd annibynnol, ansawdd ac uniondeb ystadegau swyddogol allweddol cyn iddynt gael eu cymeradwyo fel ystadegau gwladol.

**Goruchwylio gwaith y Swyddfa Ystadegau Gwladol**
Yr Awdurdod yw'r lefel uchaf o lywodraethu ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Gwladol, swyddogaeth a gyflawnwyd cyn hynny gan Weinidogion o Drysorlys EM.

## Aelodau o Awdurdod Ystadegau y DU

Penodir Cadeirydd yr Awdurdod gan Ei Mawrhydi, y Frenhines, ac mae'r swydd yn un anweithredol. Ym mis Gorffennaf 2007, penodwyd Syr Michael Scholar, cyn Ysgrifennydd Barhaol i'r Swyddfa Gymreig, yn Gadeirydd i'r Awdurdod Ystadegau[2].

Mae'r Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru yn datgan y dylai'r Awdurdod gael pum aelod anweithredol, o leiaf, yn ogystal â'r Cadeirydd. Penodir yr aelodau anweithredol gan Swyddfa'r Cabinet, mewn ymgynghoriad â Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig3.

Aelodau eraill yr Awdurdod Ystadegau yw'r Ystadegydd Gwladol a dau aelod gweithredol arall, a gaiff eu penodi gan yr aelodau anweithredol. Mae gan yr Ystadegydd Gwladol, yn ogystal â bod yn Brif Weithredwr a Phrif Gynghorydd Ystadegol i'r Awdurdod, gyfrifoldeb uniongyrchol dros waith y Swyddfa Ystadegau. Mae'r Ystadegydd Gwladol yn atebol i'r Awdurdod.

Sefydlwyd swydd y Pennaeth Asesu gan y Ddeddf. Dyma brif gynghorydd yr Awdurdod o ran asesu ystadegau swyddogol a dyfarnu ar geisiadau 'nod barcud' yng nghyd-destun ystadegau gwladol. Gall y Pennaeth Asesu fod yn aelod gweithredol o'r Awdurdod, ond nid yw hynny'n ofynnol, sy'n wahanol i swydd yr Ystadegydd Gwladol.

## Materion eraill y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu

Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau: Dylai is-ddeddfwriaeth nodi'r trefniadau ar gyfer rhoi'r hawl i weld ystadegau swyddogol ar eu ffurf derfynol cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Ar hyn o bryd, gall y Gweinidogion a'r swyddogion perthnasol weld ystadegau swyddogol sensitif i'r farchnad hyd at 40.5 awr cyn iddynt gael eu cyhoeddi, a'r ystadegau eraill hyd at bum niwrnod cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Yn y Papur Gwrdd ar Lywodraethu Prydain, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i leihau'r cyfnod hwn i 24 awr. Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn penderfynu ar eu trefniadau eu hunain, yn hyn o beth. Mae gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig gyfrifoldeb statudol i asesu lefel y cydymffurfio â'r trefniadau hynny.

[2] Gellir dod o hyd i fywgraffiad o Syr Michael Scholar yma: **http://www.statistics.gov.uk/pdfdir/statboard0707.pdf**
[3] Gellir dod o hyd i enwau aelodau anweithredol yr Awdurdod Ystadegau yma: **http://www.statistics.gov.uk/about/data/independence/latestnews.asp**

**Cyfrinachedd:** Mae'r Ddeddf yn datgan bod yr wybodaeth sydd gan yr Awdurdod Ystadegau sy'n berthnasol i berson neu fusnes, neu sy'n eu henwi, yn gyfrinachol, ac ni ddylid ei rhyddhau. Mae rhyddhau'r wybodaeth hon mewn modd anghyfreithlon yn drosedd a all arwain at ddiryw neu garchar.

**Rhannu data:** Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau sy'n galluogi awdurdodau cyhoeddus a'r Awdurdod Ystadegau i rannu gwybodaeth at ddibenion ystadegol. Daw'r cynigion hynny i rym drwy is-ddeddfwriaeth.

**Gwasanaethu cofrestru:** Nid yw'r swyddogaethau cofrestru hynny a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fel cofrestru genedigaethau a marwolaethau, yn rhan o gylch gwaith yr Awdurdod Ystadegau. Gweinidogion sy'n parhau i fod yn gyfrifol amdanynt, a throsglwyddir y swyddogaethau hyn i asiantaeth weithredol y Swyddfa Gartref.

**Statws cyflogaeth:** Gweision sifil yw holl weithwyr Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau er mwyn sefydlu gwir statws a hawliau cyflogaeth ar gyfer cofrestryddion yng Nghymru a Lloegr, a hynny fel gweithwyr awdurdodau lleol.

**Yr adran noddi:** Trosglwyddir y cyfrifoldeb o'r Drysorlys i Swyddfa'r Cabinet mewn achosion lle mae angen llwybr i'r Senedd ar yr Awdurdod Ystadegau, er enghraifft, wrth geisio symud is-ddeddfwriaeth ymlaen.

## Canolfan gyhoeddi

Er nad yw wedi ei gynnwys yn y Ddeddf, cysylltir y syniad o ganolfan gyhoeddi yn gryf ag annibyniaeth ystadegol. Y nod yw rhyddhau'r holl ystadegau gwladol drwy ganolfan gyhoeddi ganolog sy'n rhydd o unrhyw gynnwys neu sylwebaeth wleidyddol. O 1 Ebrill 2008, **www.statistics.gov.uk** fydd y ganolfan gyhoeddi ar gyfer Ystadegau Gwladol. Cyflwynir y ganolfan mewn modd cynyddrannol, gyda'r nod o'i wneud yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2009. Gall y gweinyddiaethau datganoledig ddewis a ydynt am ddefnyddio'r ganolfan neu beidio.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y linc.

- **Statistics and Registration Services Act 2007**
- **Office for National Statistics independence mini-site**
- **HM Treasury and Cabinet Office consultation on limiting pre-release access**
- **Welsh Assembly Government pre-release access arrangements**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 12/0000**
**Author name**